YSGOL ABERCONWY

13.01.2026

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am ddiweddariad pwysig o ran gweithdrefnau presenoldeb ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Tegfan.

Fel y gwyddoch, mae Tegfan yn cefnogi dysgwyr â phroffiliau cymhleth, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein polisïau'n adlewyrchu eu hanghenion unigol. Er bod polisi presenoldeb yr ysgol gyfan yn parhau ar waith, rydym wedi mireinio a gweithredu protocol presenoldeb penodol ar gyfer disgyblion Tegfan. Cynlluniwyd y protocol hwn i redeg ochr yn ochr â pholisi ehangach yr ysgol, ond mae wedi'i deilwra i **fod yn fwy addas a chefnogol i ddysgwyr Tegfan a'u teuluoedd.**

O fis Ionawr 2026 bydd y protocol a fireiniwyd yn cael ei gyflwyno. Ei bwrpas yw:

- Darparu disgwyliadau clir a chyson mewn perthynas â phresenoldeb ar gyfer disgyblion Tegfan.
- Darparu cefnogaeth ychwanegol i rieni a gofalwyr wrth helpu eu plentyn i fynychu'r ysgol yn rheolaidd.
- Mynd i'r afael â phryderon ynghylch presenoldeb yn brydlon ac yn adeiladol, gyda'r nod o gefnogi disgyblion a theuluoedd.

Fel rhan o'r protocol hwn, efallai y byddwch yn derbyn llythyrau yn amlinellu presenoldeb eich plentyn, galwadau ffôn cefnogol gan staff i drafod unrhyw bryderon a, lle bo angen, gwahoddiad i gyfarfod fel y gallwn gydweithio i gynllunio'r gefnogaeth gywir. Mae'r camau hyn yn ein helpu i nodi unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg yn gynnar ac yn sicrhau y gallwn gefnogi presenoldeb eich plentyn yn effeithiol.

Rydym yn cydnabod y gall presenoldeb fod yn her i rai disgyblion, a bydd ein dull o weithio yn parhau i fod yn gefnogol, yn gydweithiol ac yn hyblyg. Ein nod yw gweithio'n agos gyda chi i sicrhau bod eich plentyn yn

Dear Parents and Carers,

I am writing to inform you of an important update regarding attendance procedures for pupils attending Tegfan.

As you know, Tegfan supports learners with complex profiles, and we are committed to ensuring that our policies reflect their individual needs. While the whole-school attendance policy remains in place, we have refined and implemented a specific attendance protocol for Tegfan pupils. This protocol has been designed to run alongside the wider school policy but is tailored to **be more suitable and supportive for Tegfan learners and their families**.

From January 2026 this refined protocol will be introduced. Its purpose is to:

- Provide clear and consistent expectations around attendance for Tegfan pupils.
- Offer additional support to parents and carers in helping their child attend school regularly.
- Address attendance concerns promptly and constructively, with the aim of supporting both pupils and families.

As part of this protocol, you may receive letters outlining your child's attendance, supportive phone calls from staff to discuss any concerns, and, where needed, an invitation to meet so we can work together to plan the right support. These steps help us identify any emerging concerns early and ensure we can support your child's attendance effectively.

We recognise that attendance can be a challenge for some pupils, and our approach will remain supportive, collaborative, and flexible. Our goal is to work closely with you to ensure that your child feels able to attend school and to provide the right help at the right time.


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

YSGOL ABERCONWY

teimlo eu bod yn gallu mynychu'r ysgol ac i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech wneud cyswllt ynghylch y protocol newydd, mae croeso i chi wneud hynny.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch partneriaeth barhaus wrth ein helpu i ddarparu'r addysg a'r gofal gorau posibl i'ch plentyn.

Cofion cynnes

Gareth Morgan
Pennaeth adran ar gyfer Tegfan

Beth Young
Cydlynydd Y Ganolfan

If you have any questions or would like to discuss the new protocol further, please do not hesitate to make contact.

Thank you for your continued support and partnership in helping us provide the best possible education and care for your child.

Kind regards

Gareth Morgan
Head of department for Tegfan

Beth Young
Y Ganolfan co-ordinator



MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE